Atodiad 1

# CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL (CCS) 2020 - 2024 - **Y CYNLLUN GWEITHREDU hyd at 31 MAWRTH 2024**

**Allwedd i'r adrodd (yn y golofn olaf)**

| | |
|---|---|
| **Gwyrdd +** | Wedi cwblhau. |
| **Gwyrdd -** | Bron wedi'i gwblhau (manylion wedi'u cynnwys). |
| **Oren +** | Cynnydd da neu gynnydd mewn meysydd nad ydynt yn dod o dan y canlyniad(au) mesuradwy. |
| **Oren -** | Ychydig o gynnydd neu newid mewn amcan (manylion wedi'u cynnwys). |
| **Coch** | Ychydig iawn o gynnydd neu ddim (manylion wedi'u cynnwys). |

| Nod Strategol 1:<br>*(Prifysgol gyfan)*<br>**Gwreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhopeth a wnawn ar draws y Brifysgol i sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb o ddileu gwahaniaethu, meithrin cysylltiadau da a hyrwyddo cyfleoedd i bawb.** | | | |
|---|---|---|---|
| | Amcan<br>(O Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 – 2024 sydd wedi'i gyhoeddi) | Cyfrifoldeb dros weithredu | Cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion<br>(gweler yr allwedd) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Hyrwyddo cymuned gynhwysol sy'n dathlu ac yn hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn darparu amgylchedd diogel lle mae pawb yn cael eu trin ag urddas a pharch, ac yn cael eu gwarchod rhag aflonyddu, bwlio, erledigaeth a gwahaniaethu wrth weithio ac astudio. | Undeb y Myfyrwyr a rhwydweithiau perthnasol. Rhwydwaith LHDTC. Adnoddau Dynol. Gwasanaethau Myfyrwyr. | Mae Prifysgol Bangor yn cynnal digwyddiadau bob blwyddyn i nodi **Diwrnod Cofio'r Holocost, Diwrnod Rhyngwladol y Merched, Mis Hanes Pobl Ddu, Balchder, Mis Hanes LHDTC, Diwali, Chanukah** a'r **Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.** Yn 2023, dechreuodd arweinwyr digwyddiadau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant Prifysgol Bangor weithio ar greu Calendr Cynhwysiant blynyddol ar gyfer Prifysgol Bangor i sicrhau bod y brifysgol, bob blwyddyn wrth symud ymlaen, yn cydnabod ac yn darparu adnoddau ar gyfer ystod gynhwysol o ddigwyddiadau'n ymwneud â chrefyddau, diwylliannau a chydraddoldeb.<br><br>Diwrnod Rhyngwladol y Merched 2023 - 'Cofleidio Ecwiti': cyfres o ddigwyddiadau, ffilmiau byr a hir yn Pontio ar y thema, gan ddathlu pob merch ym Mangor drwy ddigwyddiadau â ffocws croestoriadol, gan gynnwys digwyddiad 'Sgwrs â menywod ym Mangor' gyda phanel amrywiol o staff a myfyrwyr benywaidd, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol dros Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.<br><br>Mis Hanes Pobl Ddu 2023 - 'Dathlu a Dyrchafu': Her i'r staff, cynhyrchwyd canllawiau 'sut i gynnal Mis Hanes Pobl Ddu' ar gyfer staff a myfyrwyr, digwyddiad Dathlu a Dyrchafu yn Pontio gydag arddangosfa, perfformiad, prif anerchiad gan yr Athro Charlotte Williams OBE, sesiwn banel holi ac ateb gyda 5 siaradwraig ddu a chydweithrediad arlwyo rhwng Prifysgol Bangor a Maggie's African Twist.<br><br>Dangosodd y Brifysgol ei chefnogaeth i'r gymuned LHDTC+ yn 2023 trwy ddod yn Noddwr Aur ar gyfer **Balchder Gogledd Cymru** a chafodd Baner Enfys LHDTC+ ei chwhwfan o dŵr Prif Adeilad y Celfyddydau ar y diwrnod fel ffordd o ymuno yn nathliadau lleol a rhyngwladol y mis Balchder. Bu i'n **Rhwydwaith LHDTC+** barhau i gyfarfod yn rhithiol ac yna dychwelyd yn raddol i gyfarfod wyneb yn wyneb.<br><br>Bob mis Tachwedd fel rhan o ddathliadau **Diwali**, mae'r Swyddfa Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol, myfyrwyr a chynrychiolwyr myfyrwyr wedi mynychu digwyddiad arbennig yng Nghaerdydd gyda'r Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru a Raj Aggarwal, Conswl Anrhydeddus India yng Nghymru.<br><br>Mae'r Gwasanaethau **Anabledd** yn anfon gwybodaeth yn rheolaidd am ddigwyddiadau yn y calendr sy'n ymwneud ag anabledd i fyfyrwyr sydd wedi cytuno i dderbyn e-byst o'r fath pan fyddant yn cofrestru gyda'r gwasanaeth. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae Undeb y Myfyrwyr yn cynnal Ffair Ddiwylliannol flynyddol gyda'r nod o ddathlu a dod â myfyrwyr o wahanol ddiwylliannau ynghyd a chefnogi cymunedau cynhwysol ac integredig ar y campws.<br><br>O drafod ym Mhrifysgol Bangor, ac mewn ymateb i adborth myfyrwyr ac i Gynllun Gweithredu LHDT Llywodraeth Cymru, byddwn yn lansio Man Cwiar yn 2024.<br><br>Cynhelir Cynhadledd Arweinwyr Myfyrwyr flynyddol ar gyfer holl arweinwyr myfyrwyr Undeb y Myfyrwyr, ac mae hyfforddiant ar cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wedi ei ymgorffori'n rhan o'r gynhadledd.<br><br>Yn dilyn adolygiad llywodraethu o fewn Undeb y Myfyrwyr yn 2023, lansiwyd rhwydweithiau myfyrwyr newydd yn seiliedig ar grwpiau myfyrwyr heb gynrychiolaeth ddigonol er mwyn gwella cynhwysiant ac amrywiaeth mewn prosesau democrataidd. |
| | | Adnoddau Dynol.<br>Gwasanaethau Myfyrwyr.<br>Data gan y Tîm Llywodraethu a Chydymffurfio<br>.<br>Hyrwyddwyr Cydraddoldeb. | Yn ystod blwyddyn academaidd 2022/2023:<br><br>• Defnyddiodd 179 o fyfyrwyr y gwasanaeth i gefnogi myfyrwyr â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth.<br><br>• Fe wnaeth 157 o fyfyrwyr ddatgelu trais rhywiol, aflonyddu, trosedd casineb neu gam-drin hiliol.<br><br>Mae hyn yn gynnydd bychan yn nifer y myfyrwyr sy'n manteisio ar y gefnogaeth sydd ar gael ac yn ostyngiad bychan yn nifer y rhai sy'n gwneud datgeliadau.<br><br>Yn 2022/23: digwyddodd y gwaith achos staff ffurfiol canlynol:<br><br>4 x achos gallu (3 gwryw, 1 benyw). Un o'r rhain oedd ymddeoliad ar sail anabledd/salwch.<br>6 x Achosion disgyblu (4 gwryw, 2 fenyw).<br>3 x Achosion o gŵyn (1 gwryw, 2 fenyw). |
| | | Swyddogion Cydraddoldeb<br>Adnoddau Dynol.<br>Hyrwyddwyr Cydraddoldeb.<br>Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Cynhaliwyd adolygiad o'r polisi Urddas wrth Weithio ac Astudio yn 2023, mewn ymgynghoriad â staff, myfyrwyr a'r undebau ac mae bellach wedi'i gyhoeddi.<br><br>Mae tudalen we'r adran Adnoddau Dynol bellach yn cynnwys modd i staff adrodd ar bob math o aflonyddu naill ai'n ddienw neu mewn ffordd sy'n arwain at gefnogaeth. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Myfyrwyr. | |
| | | Adnoddau Dynol (Datblygu Staff). | Cynhaliwyd Arolwg Staff ym mis Chwefror 2022, gyda chynlluniau gweithredu wedi'u datblygu yn seiliedig ar adborth staff i'w rhoi ar waith ar lefel strategol a gweithredol ar draws y brifysgol, a lluniwyd cynllun gweithredu penodol o ran adborth ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae ymgysylltu rheolaidd a diweddariadau cynnydd ar y cynlluniau gweithredu wedi eu cynnwys yn y bwletin staff trwy gydol 2023. Trwy waith ar Athena Swan a'r Siarter Cydraddoldeb Hil, mae camau'n cael eu cymryd i'n galluogi i ddefnyddio dull mwy croestoriadol wrth ddadansoddi'r Arolwg Staff nesaf, y bwriedir ei gynnal yn 2024, ac arolygon staff eraill yn y dyfodol. |
| | | Gwasanaethau Myfyrwyr.<br>Undeb y Myfyrwyr. | Nid yw Undeb y Myfyrwyr bellach yn cynnal un arolwg blynyddol, ac yn hytrach maent yn cynnal arolygon mwy thematig ar faterion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a chafwyd ymateb cymharol dda ar bynciau megis iechyd meddwl a chynwysoldeb. Mae undeb y myfyrwyr hefyd bellach yn cynnal gweithgaredd adborth cipolwg trwy eu menter 'Dydd Mawrth Dweud', gydag amrywiaeth o faterion cydraddoldeb yn cael eu trafod yn uniongyrchol gyda myfyrwyr bob wythnos.<br><br>Fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol 2021/22 y Gwasanaethau Myfyrwyr, mae cyfraddau ymateb i'n ceisiadau am adborth yn parhau'n isel, ac mae hwn yn faes gwaith parhaus. Fodd bynnag, er bod darpariaeth iechyd meddwl wedi disgyn yn is na'n targed o 85% ar gyfer lefelau boddhad, llwyddodd pob agwedd arall ar y Gwasanaethau Myfyrwyr i gyrraedd, neu ragori ar, y targed hwn, gyda rhai gwasanaethau'n cyflawni dros 90%. |
| 1.2 | Cryfhau ymwybyddiaeth ein harweinwyr a'n staff ynglŷn â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac arfer gorau cysylltiedig. | Adnoddau Dynol ( Datblygu Staff a Swyddog Cydraddoldeb).<br>Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr. | Rhoddwyd sesiynau briffio cydraddoldeb ac amrywiaeth i'r Cyngor a'r Bwrdd Gweithredol ar ddyletswyddau cydraddoldeb statudol a llywodraethu cydraddoldeb, ac un arall ar weithredu Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010 yng Nghymru.<br><br>Cynhaliwyd gweithdy wedi'i hwyluso gan Advance HE a'r adran Adnoddau Dynol ar Amrywiaeth Bwrdd i aelodau'r Cyngor yn 2022.<br><br>Yn 2023, adolygwyd y strwythurau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i symleiddio a chryfhau'r gweithredu ar ein cynlluniau cydraddoldeb a'r adrodd am y cynnydd a wneir.<br><br>Yn 2023/24, bu'r Is-ganghellor, aelodau'r Bwrdd Gweithredol ac aelodau tîm Hunanasesu'r Siarter Cydraddoldeb Hil yn cymryd rhan yn 'Race and Racism: a programme for leaders and change agents' a hwyluswyd gan Advance HE. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae 398 o staff wedi cwblhau’r hyfforddiant Cydraddoldeb i Reolwyr hyd yma. Mae 1474 o staff wedi cwblhau’r hyfforddiant ar Ragfarn Diarwybod ers iddo gael ei gyflwyno ac mae 1850 o staff wedi cwblhau ein pecyn e-ddysgu Cydraddoldeb ar-lein.<br><br>Ym mis Ebrill 2024, byddwn yn lansio pecyn e-ddysgu newydd o’r enw 'Cyflwyniad i Gydraddoldeb Hil' i’w ddefnyddio gyda’r holl staff ac undeb y myfyrwyr. |
| | | Adnoddau Dynol (Datblygu Staff a Gweithrediadau). | Mae pecynnau adnoddau’r adran Adnoddau Dynol yn parhau i gael eu datblygu; mae'r ffocws ar hyn o bryd ar gyfres o hyfforddiant i ddatblygu sgiliau Arweinyddiaeth gan gynnwys, lle bynnag y bo modd, canolbwyntio ar themâu cydraddoldeb ac amrywiaeth perthnasol. |
| | | Adnoddau Dynol (Datblygu Staff a Gweithrediadau). | Rhoddwyd ystyriaeth i Fframwaith Ymddygiad Proffesiynol diwygiedig yn ystod 2013, ond cytunwyd bod angen sicrhau bod hynny bellach yn cyd-fynd â datblygiadau yn y sector ac yn unol ag arferion gorau. Bydd y defnydd o ymddygiad yn cael ei gyfuno mewn datblygiadau newydd ac yn cael ei ystyried wrth i brosesau newydd gael eu cyflwyno. |
| | | Undeb y Myfyrwyr. | Mae cynadleddau Arweinyddiaeth Myfyrwyr bellach yn cael eu cynnal yn flynyddol ac mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn bwnc allweddol a drafodir, ochr yn ochr ag aflonyddu rhywiol, goddef dim aflonyddu a chydraddoldeb hil.<br><br>Bydd staff Undeb y Myfyrwyr yn treialu pecyn e-ddysgu newydd Prifysgol Bangor ‘Cyflwyniad i Gydraddoldeb Hil’ ym mis Mawrth 2024. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Sicrhau bod cydraddoldeb wedi ei ymgorffori yn ein holl strategaethau a'i fod yn ystyriaeth allweddol gan grwpiau sy'n gwneud penderfyniadau ar draws y brifysgol. | Adnoddau Dynol (Rheolwr Athena SWAN).<br>Y Bwrdd Gweithredol.<br>Swyddog Cydraddoldeb Adnoddau Dynol.<br>Y<br>Bwrdd Gweithredol. | Yn 21/22 y cydbwysedd rhwng y rhywiau:<br><br>• ymhlith aelodaeth grwpiau strategaeth oedd bod 51% yn ferched.<br>• yn y Bwrdd Gweithredol oedd bod 33% yn ferched (i fyny o 30% yn 19/20).<br>• Mae’r Senedd wedi gostwng o fod yn 50:50 i fod â 43% yn ferched oherwydd ailstrwythuro ar ddechrau 21/22 pan gafodd Ysgolion eu huno.<br>• Yn 20/21 roedd 14 o ysgolion academaidd, pob un â 2 gynrychiolydd ar y Senedd ac ers 21/22 mae gennym bellach 9 ysgol academaidd. Roedd 62 aelod yn y Senedd yn 20/21 a 47 yn 21/22.<br>• Bu gostyngiad yn y Cyngor i 30% o ferched.<br><br>Yn 22/23 y cydbwysedd rhwng y rhywiau:<br><br>• ymhlith aelodaeth grwpiau strategaeth oedd bod 40% yn ferched.<br>• yn y Bwrdd Gweithredol oedd bod 31% yn ferched (i lawr 2% ers 21/22).<br>• Roedd y Senedd â 45% o ferched (cynnydd o 2% ers 21/22).<br>• Roedd y Cyngor yn â 47% o ferched (cynnydd o 17% ers 21/22).<br><br>Cyflwynodd BU gais Athena Swan Sefydliadol Arian ym mis Tachwedd 2023 a oedd yn llwyddiannus.<br>Bydd Ysgol y Celfyddydau, Diwylliant ac Iaith yn cyflwyno eu cais Efydd cyntaf ym mis Mawrth 2024.<br>Bydd yr Ysgol Gwyddorau Eigion yn cyflwyno cais i adnewyddu eu gwobr Efydd ym mis Mawrth 2024.<br><br>Mae Prifysgol Bangor yn parhau i ariannu lleoedd ar Raglen Arweinyddiaeth Aurora Advance HE. Rhaglen yw hon ar gyfer merched (hyd at lefel uwch ddarlithydd neu’r hyn sy’n cyfateb yn y gwasanaethau proffesiynol) sydd eisiau datblygu ac archwilio materion mewn perthynas â swyddi a chyfrifoldebau arwain. Mae cyfranogwyr yn cael eu paru ag uwch fentor o'r Brifysgol, sy'n eu cefnogi trwy gydol y rhaglen.<br>Mae 16 merch sy’n aelodau staff wedi cwblhau rhaglen Aurora ers 2020 pan ariannodd Prifysgol Bangor leoedd ar y rhaglen hon i ddechrau ac rydym wedi ymrwymo i barhau i gynyddu’r niferoedd sy’n dilyn y rhaglen. Ar hyn o bryd mae gennym 9 o gyfranogwyr wedi'u cadarnhau ar gyfer rhaglen 2024. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Deoniaid, Rheolwyr Colegau.Swyddog Cydraddoldeb Adnoddau Dynol. Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr. | Mae gan bob un o’r tri Choleg bellach Bwyllgorau Cydraddoldeb Coleg sydd wedi’u hen sefydlu, sy’n cyfarfod yn rheolaidd, ac yn cael eu harwain gan uwch staff y Coleg. Maent yn adrodd i’r Grŵp Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Mae arweinydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth/Athena Swan pob Ysgol yn aelod o Bwyllgor Cydraddoldeb eu Coleg.<br>Yn ogystal, mae gan rai o’r Ysgolion mwyaf eu Pwyllgorau Cydraddoldeb eu hunain e.e. mae gan yr Ysgol Gwyddorau Iechyd eu Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cynnwys staff a myfyrwyr, yn dilyn yr uno diweddar rhwng Gwyddorau Meddygol a Gwyddorau Iechyd, anfonir gwahoddiadau yn gofyn am gynrychiolaeth o'r Gwyddorau Meddygol. |
| | | Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol.Swyddog Cydraddoldeb Adnoddau Dynol. Hyrwyddwyr Cydraddoldeb. | Sefydlwyd Pwyllgor Cydraddoldeb i’r Gwasanaethau Proffesiynol yn 2023. |
| 1.4 | Sicrhau dealltwriaeth eang o'r berthynas rhwng cydraddoldeb a chynaliadwyedd. | Swyddog Cynaliadwyedd Ystadau | Mae cynaliadwyedd bellach yn rhan o'n Strategaeth 2030: Strategaeth Gynaliadwyedd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1.5 | Gwella'r wybodaeth sydd gennym am bobl â nodweddion gwarchodedig i alluogi gwneud penderfyniadau gwybodus a gwella dealltwriaeth o'r anghenion a'r rhwystrau sy'n wynebu pobl mewn grwpiau gwarchodedig a chodi ymwybyddiaeth am y Model Cymdeithasol Anabledd. | Cadeirydd y Grŵp Strategaeth Amrywiaeth a Chydraddoldeb, y Swyddfa Gynllunio a'r Swyddog Amrywiaeth a Chydraddoldeb Myfyrwyr. | Mae demograffeg myfyrwyr bellach yn cael eu cyflwyno yn ein datganiad canlyniadau gradd ac yn ein hadroddiad dosbarthiad graddau.<br><br>Bydd y tîm cynllunio yn gweithio gyda'r gwasanaethau digidol i ddatblygu dangosfwrdd Taith Myfyrwyr fel nod datblygu hirdymor. Mae adroddiadau blynyddol ar Ddal Gafael ar Fyfyrwyr, Cyrhaeddiad Graddau, a Chyflogadwyedd yn parhau i gael eu cynhyrchu yn y cyfamser a thrwy waith ar y Siarter Cydraddoldeb Hil ac Athena Swan, mae Prifysgol Bangor yn anelu at ddadansoddi data myfyrwyr o ran hil, rhyw ac anabledd wrth symud ymlaen.<br><br>Mae'r Tîm Cynllunio bellach yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol Data Cydraddoldeb Myfyrwyr. Ar ôl ei gyhoeddi, bydd hwn i'w weld ar ein gwefan, yma:<br>Polisïau (bangor.ac.uk) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Cynllunio. Swyddog Projectau a Systemau Adnoddau Dynol a Swyddog Cydraddoldeb. Pwyllgorau Cydraddoldeb y Colegau. | Defnyddiwyd Canllawiau Advance HE ar Gasglu Data Monitro Amrywiaeth, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021, i sicrhau bod y data staff a gasglwn yn briodol, ac mae hyn wedi bwydo i mewn i ddatblygiad y system Adnoddau Dynol a Chyflogres newydd a lansiwyd yn 2023. |
| | | Cynllunio. Swyddog Projectau a Systemau Adnoddau Dynol. | Cafodd yr opsiwn i adael y maes teitl yn wag ei gynnwys ar draws ein systemau staff yn 2022. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Y Bwrdd Gweithredol. Swyddog Cydraddoldeb Adnoddau Dynol. Hyrwyddwyr Cydraddoldeb. Pob rheolwr. | Mabwysiadwyd diffiniad yr IHRA o wrthsemitiaeth ym mis Hydref 2020. Ers y cam hwn, mae codi ymwybyddiaeth wedi digwydd drwy roi gwybod i staff drwy'r Bwletin Staff, mae datganiad wedi'i gyhoeddi ar dudalen we'r adran Adnoddau Dynol, mae ymwybyddiaeth o wrthsemitiaeth wedi'i gynnwys yn y Gweithdy Cydraddoldeb i Reolwyr a chynhelir digwyddiad Cofio'r Holocost ym mis Ionawr bob blwyddyn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1.6 | Gweithio i ddatblygu cynlluniau gweithredu llesiant a'u rhoi ar waith i staff a myfyrwyr yn unol â datganiad polisi HEFCW ar lesiant ac iechyd mewn addysg uwch. | Grŵp Iechyd a Lles. | Mae gwybodaeth am ein Arolwg Staff 2022 i'w gweld trwy glicio ar y ddolen.<br><br>O 2022 ymlaen, mae'r holl staff bellach yn cael y cyfle i drafod iechyd a lles fel rhan o'u Adolygiad Datblygu Perfformiad blynyddol. |
| | | Grŵp Iechyd a Lles. Swyddog Cynaliadwyedd. Gwasanaethau Myfyrwyr. Undeb y Myfyrwyr Adnoddau Dynol | Mentrau a gyflwynwyd yn 2023 gyda'r nod o leihau dwysâd salwch:<br><br>• Sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar ar-lein 30 munud ddwywaith yr wythnos i staff.<br>• Dosbarth ymestyn 30 munud wythnosol am ddim i staff yng Nghanolfan Brailsford.<br>• Cefnogaeth a gwybodaeth trwy gyflwyno'r Lolfa Menopos.<br>• Cefnogaeth gyhyrysgerbydol i staff.<br>• Cymhelliant lles.<br>• Sefydlu grŵp Teams Covid Hir/CFS<br>• Wrthi'n cael eu datblygu: Modiwl 'Living with stress and preventing burnout' Steve Noone. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1.7 | Parhau i hyrwyddo'r defnydd o asesiadau effaith cydraddoldeb i barhau i gynyddu'r nifer sy'n ymateb a gwella'r ansawdd er mwyn sicrhau bod penderfyniadau gwybodus yn cael eu gwneud. | Y Bwrdd Gweithredol. Llywodraethu a Chydymffurfio. Swyddog Cydraddoldeb Adnoddau Dynol. Hyrwyddwyr Cydraddoldeb. Pob rheolwr. Undebau Llafur. | Mae cwblhau Asesiadau Effaith Cydraddoldeb bellach yn gyffredin ar draws y Brifysgol gyda thempled a chanllawiau yn ogystal ag unigolyn enwebedig i gefnogi staff wedi'u cyhoeddi ar ein Mewnrwyd. Mae rhai enghreifftiau o'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb a gwblhawyd yn y cyfnod adrodd yn cynnwys:<br><br>• Pecyn Cymorth Gweithio Deinamig.<br>• Cynllun Prentisiaethau Gradd.<br>• Y Strategaeth Ymestyn yn Ehangach ddiwygiedig.<br>• Yr adolygiad o bwyllgorau Prifysgol Bangor yn 2023. |
| | | Canolfan Bedwyr. | Datblygwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg gan Ganolfan Bedwyr. |
| 1.8 | Sicrhau bod data caffael ar waith i ddangos amrywiaeth yn y maes caffael. | Cyllid (Caffael a Thaliadau). | Mae'r Tîm Cyllid yn sicrhau bod hyn yn ei le drwy'r archwiliad blynyddol. |
| | | Cyllid (Caffael a Thaliadau). Swyddog Cynaliadwyedd. | Mae'r Tîm Cyllid yn sicrhau bod hyn yn ei le drwy'r archwiliad blynyddol. |
| | | Cyllid (Caffael a Thaliadau). Adnoddau Dynol (Datblygu Staff). | Mae'r Tîm Cyllid yn sicrhau bod hyn yn ei le drwy'r archwiliad blynyddol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Cyfarwyddwyr Addysgu a Dysgu. Datblygu Staff. | Pwysleisiwyd cynwysoldeb i bawb ym mhob gweminar dilynol yng nghyfres yr haf a’r gaeaf, gan gynnwys sesiynau wedi’u neilltuo ar gyfer asesu ac adborth ar-lein, addysgu hybrid, a chyflwyno addysgu a dysgu dwyieithog.<br><br>Anogwyd aelod o'r Gwasanaethau Anabledd hefyd i fynychu pob sesiwn gweminar i sicrhau bod llais 'hygyrchedd' yn cael ei gynrychioli, a chyhoeddir yr holl recordiadau gweminar ochr yn ochr ag adnoddau atodol ar wefan Hyfforddiant ac Adnoddau Staff CELT.<br><br>Yn ogystal, mae un o’r pedair prif ddewislen ar y wefan yn cynnwys canllawiau a deunyddiau astudio pellach wedi’u neilltuo i “Mynediad i Bawb: Dysgu Cyfunol - camau syml i gynnwys eich holl fyfyrwyr”.<br><br>Er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth ymhlith cydweithwyr, yn 2022, casglodd y tîm Cefnogi Addysgu a Dysgu adnoddau defnyddiol sy’n cynnwys gwybodaeth am Blackboard Ally, dolenni i wybodaeth am y gwasanaeth digideiddio sydd ar gael gan y Gwasanaethau Digidol, a manylion cwrs hanfodion Microsoft Accessibility. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Y Bwrdd Gweithredol. Canolfan Bedwyr. Gwasanaethau TG. Gwasanaethau Anabledd. | Mae 'Trawsgrifiwr' wedi'i ddatblygu gan Ganolfan Bedwyr i lunio capsiynau fideo trwy adnabod lleferydd yn awtomatig ac, yn 2023, mae bellach yn cydymffurfio yn Gymraeg ac mae hyn hefyd yn wir am Panopto. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Adnoddau Dynol | Adroddwyd am y bwlch cyflog ethnigrwydd am y tro cyntaf ym mis Mawrth 2020 ac adroddir yn flynyddol am hynny bellach.<br><br>Adroddwyd am y bwlch cyflog anabledd am y tro cyntaf ym mis Mawrth 2022 ac adroddir yn flynyddol am hynny bellach. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Grŵp/Rheolwr Athena SWAN Adnoddau Dyno l. Yr Ysgol Ddoethurol. | Mae trafodaethau ar y gweill fel rhan o gyfarfodydd rheolaidd rhwng yr Ysgol Ddoethurol ac Adnoddau Dynol. Bu oedi cyn cwblhau'r gwaith hwn ond disgwylir gwybodaeth gan yr Ysgol Ddoethurol yn ystod Haf 2023 i symud y cam hwn ymlaen. |
| 1.11 | Sicrhau bod pob ysgol wedi gwneud cais am wobrau Athena SWAN erbyn 2023, neu'n gweithio tuag atynt. | Grŵp/Rheolwr Athena SWA N. Penaethiaid Ysgolion.Hyrwyddwyr Cydraddoldeb. | Gwnaeth tair Ysgol gais llwyddiannus am wobr Athena SWAN yn rownd Tachwedd 2020.<br>Bellach mae gan saith Ysgol wobrau Efydd (Ysgol Gwyddorau'r Eigion, Seicoleg, Busnes, Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig, Ysgol Gwyddorau Naturiol, Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer, Ysgol Gwyddorau Iechyd (mae'r Ysgol Gwyddorau Iechyd yn uno â'r Ysgol Gwyddorau Meddygol a bydd y wobr yn berthnasol).<br>Dim cyflwyniadau pellach ers 2020 oherwydd bod y siarter yn cael ei diwygio. Mae'r tair ysgol arall bellach yn gweithio tuag at gyflwyno yn 2023/24.<br><br>Recriwtiwyd i rôl newydd Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn 2022 gyda chyfrifoldeb dros y gwaith a wna Prifysgol Bangor i ennill gwobr arian sefydliad-cyfan Athena Swan a chyflwynwyd ein cais am y wobr honno ym mis Tachwedd 2024. |

Nod Strategol 2:
(*yn canolbwyntio ar fyfyrwyr*)
**Darparu amgylchedd dysgu a byw cynhwysol, cefnogol, a diogel i fyfyrwyr.**

| | Amcan | Cyfrifoldeb | Cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion (gweler yr allwedd) |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.1 | Hyrwyddo cymuned gynhwysol sy'n dathlu ac yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y brifysgol. Ymdrechu i sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi a bod ganddynt fynediad cyfartal i holl wasanaethau'r brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr. Hyrwyddo a dathlu amrywiaeth ein myfyrwyr a'n grwpiau myfyrwyr a hyrwyddo diwylliant cynhwysol a'r Polisi Aflonyddu ar Fyfyrwyr. | Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr.<br><br>Myfyriwr Gwasanaethau. Gwasanaeth Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol. Bywyd Preswyl. | Bellach mae gan Brifysgol Bangor is-safle Cymuned Gynhwysol fel rhan o Fy Mangor:<br><br>Ein Cymuned Prifysgol Gynhwysol \| Cymuned Ein Prifysgol \| Prifysgol Bangor<br><br>Dyfarnwyd Ysgoloriaethau Cynhwysol Bangor 22/23 i dri myfyriwr rhagorol (un o bob Coleg). Menter fel rhan o waith Athena Swan Prifysgol Bangor yw'r ysgoloriaethau i gefnogi myfyrwyr sy'n parhau â'u hastudiaethau ym Mangor er mwyn tynnu sylw at amrywiaeth a chynwysoldeb ein poblogaeth myfyrwyr a dathlu hynny, i sicrhau bod llais a phrofiad myfyrwyr yn rhan o'n hagenda cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a'n hagenda Athena Swan ac er mwyn cefnogi datblygiad gyrfa'r myfyrwyr hynny sy'n cyfrannu at y ddwy agenda bwysig hyn.<br><br>Mae ein Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr yn darparu cefnogaeth arbenigol ar gyfer aflonyddu, troseddau casineb a thrais rhywiol, gan weithio'n agos gydag Undeb y Myfyrwyr ar ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth sy'n ymwneud â chydraddoldeb ymhlith myfyrwyr. Mae Prifysgol Bangor yn cymryd safiad rhagweithiol ar fynd i'r afael ag adroddiadau o aflonyddu neu droseddau casineb, gan gymryd camau disgyblu lle bo angen, a darparu ymyriadau hyfforddi lle bo angen i sicrhau bod pob myfyriwr yn deall disgwyliadau ymddygiad ac yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael. Mae'r dull sefydliadol hwn yn sicrhau bod ein cefnogaeth iechyd a lles yn cynnwys anghenion myfyrwyr â nodweddion gwarchodedig.<br><br>Yn 2023, cyhoeddodd Prifysgol Bangor fersiwn ddiwygiedig o'r polisi Urddas wrth Weithio ac Astudio, mewn ymgynghoriad â staff, myfyrwyr, Undeb y Myfyrwyr a'r undebau.<br><br>Mae'r tîm Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol yn parhau i drefnu llawer o ddigwyddiadau sy'n dathlu amrywiaeth ac yn parhau i gynnal gweithdai cynhwysiant sydd wedi cael ymateb da.<br><br>Mae Bywyd Preswyl yn datblygu calendr o ddigwyddiadau cynhwysol, wedi'i gynllunio i apelio at bob myfyriwr, a chynnig cefnogaeth trwy'r trawsnewid i fywyd cymunedol.<br><br>Mae'r rhaglen Campws Byw wedi ymrwymo i gefnogi rhyngweithio rhwng myfyrwyr neuaddau Prifysgol Bangor, gan annog goddefgarwch a dealltwriaeth, a meithrin cymuned breswyl glos trwy galendr o ddigwyddiadau cynhwysol sy'n cael eu creu gan fyfyrwyr, ar gyfer myfyrwyr ac sydd felly'n denu ac yn annog cyfranogiad o blith ein carfan amrywiol o drigolion.<br><br>Mae pob digwyddiad wedi'i gynnwys o fewn ffioedd neuaddau myfyrwyr, sy'n sicrhau bod y calendr cyfan yn bosibl yn ariannol.<br><br>Ymhlith y digwyddiadau a gynigir ar yr ystod calendr mae: |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Sesiynau datblygiad personol e.e. ysgrifennu CV / ymdopi â straen a gorbryder<br>• Cinio dydd Sul (gan ddarparu ar gyfer pob angen dietegol)<br>• Sesiynau dysgu coginio<br>• Ymwybyddiaeth Ofalgar ac Ioga (cynhelir sesiynau ychwanegol o gwmpas amser arholiadau)<br>• Cerdded a Sgwrsio (sesiynau lles)<br>• Dianc a darganfod - gan gynnwys teithiau cerdded ac ymweld ag atyniadau'n lleol, a mynd i farchnad Nadolig Manceinion<br>• Sesiynau crefft – gwneud gemwaith, crefftau Nadolig, peintio a phanad<br>• Bwyd a siocled poeth am ddim yn rheolaidd<br>• Bingo a chwisiau.<br><br>Mae'r tîm o fyfyrwyr sy'n Gydlynwyr Campws Byw yn cynrychioli holl amrywiaeth ein cymuned anhygoel o fyfyrwyr.<br><br>Mae'r Cydlynwyr Campws Byw yn cynorthwyo mewn diwrnodau agored a digwyddiadau croeso rhyngwladol, i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei hysbysebu'n llawn i fyfyrwyr newydd a darpar fyfyrwyr.<br><br>Mae'r amserlen digwyddiadau yn cael ei chreu ar y cyd â myfyrwyr i ddarparu profiad diddorol a chyfannol, gan ganolbwyntio ar les, sgiliau bywyd a chysylltiadau ag eraill.<br><br>Mae tîm o fyfyrwyr-fentoriaid ac uwch wardeiniaid hefyd yn darparu gofal bugeiliol a chefnogaeth lles yn lleoliadau preswyl y Brifysgol, gan gyfeirio myfyrwyr at wasanaethau cefnogi lle bo angen.<br><br>Caiff presenoldeb ei fonitro ar gyfer pob carfan yn ôl oedran, neuaddau preswyl, israddedig/ôl-radd, o'r Deyrnas Unedig neu fyfyrwyr Rhyngwladol.<br><br>Cynigir dosbarthiadau Saesneg am ddim i fyfyrwyr tramor a gwladolion tramor sy'n byw yn y rhanbarth yn y Ganolfan Addysg Ryngwladol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Darperir hyfforddiant ar sensitifrwydd diwylliannol gan ein Tîm Cefnogaeth Ryngwladol. Cynhelir dau weithdy gwahanol bob tymor, un ar heriau cefnogi a gweithio gyda myfyrwyr rhyngwladol a'r llall ar UKVI a chydymffurfiaeth i fyfyrwyr rhyngwladol. Cynhelir y ddau gan y Swyddfa Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol trwy hyfforddiant Datblygu Staff. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.2 | Cynnwys myfyrwyr yn llawn, ni waeth beth yw eu statws o ran anabledd, hunaniaeth rhywedd, tarddiad/ethnigrwydd a phob nodwedd warchodedig ym mhob agwedd ar fywyd y brifysgol a hyrwyddo profiad cadarnhaol yn y brifysgol i bawb. | Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr. | Mae Gwasanaeth Cefnogi Trais ac Aflonyddu Rhywiol y Gwasanaethau Myfyrwyr a'u swyddogaethau mwy cyffredinol, yn darparu'r gefnogaeth y mae ar fyfyrwyr ei hangen i gael eu cynnwys yn llawn os yw’r broblem sydd ganddynt yn ymwneud â nodwedd warchodedig. Mae Undeb y Myfyrwyr hefyd yn cynnal llawer o weithgareddau yn y maes hwn.<br><br>Mae’r Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr bellach yn darparu hyfforddiant ar sawl lefel i staff ynghylch datgeliadau o drais rhywiol ac mae ganddynt dîm ymateb i ddatgeliadau ar draws y campws yn ychwanegol at Hyfforddiant Ymwybyddiaeth i Wyliedyddion a gynigir i staff a chynrychiolwyr myfyrwyr.<br><br>Ers 2022 mae’r Brifysgol bellach yn cynnig gofal plant am ddim i fyfyrwyr â phlant 3 a 4 oed, ac yn hyrwyddo hyn.<br><br>Yn 2023, cafodd grŵp tasg a gorffen ei gynnull a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o’r Rhwydwaith Myfyrwyr Traws, staff cydraddoldeb ac arweinwyr o’r adran ystadau, i gynnal adolygiad o’r holl doiledau a chyfleusterau newid mewn perthynas â hygyrchedd o ran anabledd, opsiynau niwtral o ran rhywedd a chyfleusterau bwydo a newid cewynnau babanod. Bydd y gwaith hwn yn mynd rhagddo yn 2024, gan ganolbwyntio i ddechrau ar Pontio, Prif Adeilad y Celfyddydau a Chanolfan Brailsford.<br><br>Yn 2023, mewn ymateb i adborth myfyrwyr ac i Gynllun Gweithredu LHDT Llywodraeth Cymru, cytunodd Prifysgol Bangor i Undeb y Myfyrwyr lansio Man Cwiar yn 2024. Bydd y fan honno’n cael ei dylunio i ddarparu gofod pwrpasol i'r gymuned LHDTC+ ar y campws. Bydd y gofod yn golygu y gellir darparu ychwaneg o adnoddau, cynnal rhagor o ddigwyddiadau a chynnig mwy o gyfleoedd.<br><br>Bydd y Brifysgol yn parhau i edrych ar ffyrdd o helpu a chefnogi myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys projectau, mentrau a digwyddiadau sy'n helpu i gysylltu myfyrwyr â chymunedau lleol. Er enghraifft:<br><br>Cynhelir digwyddiadau a phrojectau ar sail barhaus rhwng BLAS, cangen ymgysylltu cymunedol Pontio, a Chymdeithas Affrica Gogledd Cymru.<br><br>Gweithio gyda Sefydliad Confucius ar eu digwyddiadau Blwyddyn Newydd Tsieineaidd yn Pontio ym mis Ionawr 2023. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.3 | Creu cymuned prifysgol sy'n cefnogi iechyd meddwl a lles cadarnhaol trwy gynorthwyo myfyrwyr i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion iechyd meddwl yn unol â'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles dan Arweiniad Myfyrwyr. | Gwasanaethau Myfyrwyr. Penaethiaid Ysgolion. Cyfarwyddwyr Addysgu a Dysgu. Undeb y Myfyrwyr. Pwyllgorau Cydraddoldeb y Colegau.<br><br>Yr Ysgol Gwyddorau Dynol ac Ymddygiadol a Gwasanaeth Cwnsela Myfyrwyr. | Ysgrifennwyd Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles dan Arweiniad Myfyrwyr 2023-25 ar y cyd ag Undeb Bangor, yn seiliedig ar ymgynghori helaeth gyda myfyrwyr a staff. Derbyniodd strategaeth newydd gymeradwyaeth derfynol gan Fwrdd Gweithredol y Brifysgol ar 18 Ionawr 2023. Mae gwaith lledaenu a gweithredu yn mynd rhagddo ar hyn o bryd drwy grŵp llywio'r strategaeth.<br><br>Mae cwricwla Baglor mewn Nyrsio yn cynnwys sesiynau addysgu ar faterion iechyd meddwl cyffredin a hunanofal, ac, yn ogystal, mae gan y cwricwla newydd fodiwl Addysg Ryngbroffesiynol arwahanol ym mlwyddyn 1 a 2 y mae myfyrwyr nyrsio, radiograffeg a ffisiotherapi yn ei ddilyn.<br><br>Mae pob tiwtor personol, llawer ohonynt yn weithwyr gofal iechyd proffesiynol, yn ymwybodol at bwy i gyfeirio myfyrwyr mewn perthynas â chyllid, llety, cwnsela ac iechyd meddwl.<br><br>Yn yr Ysgol Gwyddorau Iechyd, mae chwe aelod o staff bellach wedi cwblhau hyfforddiant ac maent bellach yn aelodau o dîm Ymateb i Ddatgeliadau Rhywiol Prifysgol Bangor.<br><br>Mae ysgolion yn gweithredu system ddyddiol er mwyn gallu cysylltu â thiwtoriaid ar frys, lle gall myfyrwyr gysylltu i drafod unrhyw fater ar fyrder.<br><br>Mae'r Brifysgol yn ymgysylltu â'r gymuned LHDTC+ drwy broject cenedlaethol myf.cymru, sef project i sicrhau bod myfyrwyr yn cael gwell mynediad at gymorth iechyd meddwl trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r project yn helpu i ymgysylltu â'r gymuned LHDTC+ drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol, podlediadau a fideos;<br>Mae myfyrwyr hefyd wedi sefydlu grŵp LHDTC+ newydd o'r enw "Queer Quest" a fydd â chyfleoedd gwirfoddoli, ymgyrchu a chodi arian ar gyfer y gymuned LHDTC+. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Ymarferwyr Lles | Mae'r un pwynt mynediad at gefnogaeth iechyd meddwl yn parhau i fod ar gael drwy gydol y flwyddyn, ac fe'i hysbysebir ar dudalen we Tîm Lles y Gwasanaethau Myfyrwyr, yn y Llawlyfr Myfyrwyr, a thrwy e-byst a thaflenni eraill. Mae'r cyfeiriad e-bost yn cael ei fonitro gan dîm gweinyddol. Cyflwynwyd therapi sesiwn sengl, ac mae'n galluogi mynediad cyflym at y gefnogaeth sydd ei hangen. Mae amseroedd aros wedi'u lleihau'n sylweddol.<br><br>Y Tîm Lles \| Gweinyddu a Gwasanaethau Myfyrwyr \| Prifysgol Bangor. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Ymarferwyr Iechyd Meddwl. | Mae'r sesiynau'n parhau ac yn cael ymateb da iawn. |
| | | Ymarferwyr Lles | Mae'r sesiynau'n parhau i gael eu cynnal. |
| 2.4 | Sicrhau bod amrywiaeth yn y cwricwlwm a chynrychiolaeth academaidd a bod addysgu ac asesu yn hygyrch ac wedi'u ffocysu'n eang i gynnwys pob grŵp o bobl o bob gwahanol gefndir a diwylliant gan gynnwys pob nodwedd a hunaniaeth. | Pennaeth Sicrhau Ansawdd, Penaethiaid Ysgolion, Cyfarwyddwyr Addysgu a Dysgu'r Ysgolion. | Mae grŵp newydd wedi'i sefydlu i edrych ar amrywiaethu'r cwricwlwm ar draws pob ysgol.<br><br>Ffurfiwyd Rhwydwaith Dad-drefedigaethu Prifysgol Bangor yn 2021 ac yn 2023, cytunwyd y byddai'r rhwydwaith hwn yn bwydo i mewn i strwythurau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ffurfiol Prifysgol Bangor.<br><br>Mae'r Rhwydwaith LHDTC wedi nodi cam gweithredu i gael mwy o ryngweithio ag ysgolion trwy Bwyllgorau Cydraddoldeb y Colegau er mwyn cefnogi'r gwaith o amrywiaethu'r cwricwlwm, ac i sicrhau bod materion LHDTC yn cael eu cynnwys trwy awduron/achosion/ymchwil yn eu modiwlau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Rhwydwaith LHDTC. Pwyllgorau Cydraddoldeb y Colegau. | Mae Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Ysgol Gwyddorau Iechyd yn cynnwys Ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa, Cyfarwyddwyr ôl-gofrestru, ôl-radd ac israddedig ac Arweinwyr Cwrs a chynrychiolwyr myfyrwyr ar draws yr holl raglenni a gynigir gan yr Ysgol. (Estynnir gwahoddiad i staff gwyddorau meddygol.) Mae trafodaethau wedi'u cynnal mewn perthynas ag adnoddau addysgu a dysgu gan gynnwys rhestrau darllen, cyflwyno ac asesu fel eu bod yn gynrychioliadol o'r corff myfyrwyr ac yn hygyrch i bawb. Mae hyn yn cynnwys defnyddio manicins sy'n amrywiol, adnabod a nodi arwyddion a symptomau mewn pobl o amrywiaeth o gefndiroedd hil/ethnig a rhoi sylw i'r iaith a'r enghreifftiau a ddefnyddir wrth addysgu.<br><br>Mae cynrychiolwyr cwrs yn cael eu cynnwys wrth ddilysu ac ailddilysu rhaglenni. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.5 | Lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng myfyrwyr o gefndir cymunedau ethnig lleiafrifol a myfyrwyr gwyn. | | Mae adroddiad bwlch cyrhaeddiad myfyrwyr blynyddol yn cael ei gynhyrchu a'i gyhoeddi'n flynyddol, gweler yma:<br><br>https://www.bangor.ac.uk/quality/index.php.cy<br><br>Mae'r gwahaniaeth o ran cyrhaeddiad graddau o fewn grwpiau ethnig yn sylweddol, gyda lefelau cyrhaeddiad cyson is dros y cyfnod adrodd. Mae cyfran y myfyrwyr BAME (mae'r Brifysgol ar hyn o bryd yn adolygu'r defnydd o'r acronym BAME: Du a Lleiafrifoedd Ethnig, fel categori adrodd, ac mae yn y broses o gytuno ar derminoleg newydd a mwy priodol) a gafodd radd dda yn 2023, 10.9% yn is na'r ffigur cyfatebol ar gyfer myfyrwyr gwyn, sy'n ostyngiad o 4% ers 2022, ac 8% yn is na chyfartaledd y Brifysgol. Mae'r data'n nodi bod dileu'r bwlch cyrhaeddiad hwn yn faes sydd angen sylw neilltuol gan y Brifysgol at y dyfodol.<br><br>Mae gwaith bellach wedi dechrau ac wedi'i nodi fel rhan allweddol o rôl newydd y Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol ar gyfer Amrywiaeth a Chynhwysiant.<br><br>Bydd bylchau cyrhaeddiad hefyd yn ffocws allweddol i'n gwaith a'n hymrwymiad i Siarter Cydraddoldeb Hil Advance HE, yr ymrwymodd Prifysgol Bangor iddi yn 2022. |
| 2.6 | Gweithio tuag at gynhwysiant llawn myfyrwyr anabl yn y gymuned academaidd a chymdeithasol, gan feithrin gwytnwch a hunanddibyniaeth. | Gwasanaethau Anabledd / Pennaeth Cefnogaeth a Lles Myfyrwyr | Mae'r cyfrifoldeb hwn wedi'i ddatganoli i'r Tiwtoriaid Anabledd ym mhob ysgol sy'n eistedd ar y Pwyllgorau Addysgu a Dysgu fel y manylir yn y canllawiau i Diwtoriaid Anabledd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cael gwared ar rwystrau a hyrwyddo cydraddoldeb addysgu a dysgu i fyfyrwyr anabl trwy ymgorffori cynwysoldeb a hyrwyddo Model Cymdeithasol Anabledd. | | Yn y Coleg Gwyddorau Dynol mae'r Tiwtor Anabledd yn aelod o'r pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a'r Pwyllgor Addysgu a Dysgu, ac yn darparu cefnogaeth i diwtoriaid personol ac arweinwyr modiwlau.  Mae'r cynrychiolydd cwrs Myfyrwyr Anabl yn aelod o bwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Ysgol<br><br>Anogir pob myfyriwr i rannu unrhyw anghenion ychwanegol/eu Cynllun Cefnogi Dysgu Personol os oes ganddynt un, gyda'r unigolyn priodol o ran adnoddau addysgu ac asesiadau.<br><br>Anogir pob myfyriwr i rannu unrhyw anghenion ychwanegol/eu Cynllun Cefnogi Dysgu Personol os oes ganddynt un, gyda'r unigolyn priodol o ran adnoddau addysgu ac asesiadau. |
| | | Gwasanaethau Anabledd. | Mae'r grŵp hwn yn weithgar ac mae presenoldeb da iawn.  Adroddwyd eisoes ar y cynnydd uchod. |
| 2.7 | Sicrhau cynnig cynhwysol o ran cyflogadwyedd myfyrwyr sy'n ystyried y rhwystrau a wynebir gan fyfyrwyr a chanddynt gefndiroedd, diwylliannau a hunaniaethau amrywiol. Mynd i'r afael yn benodol â rhwystrau sy'n codi o'r amserlen. | Y Swyddfa Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol.<br><br>Gwasanaeth Cyflogadwyedd. | Mae gan ysgolion arweinwyr Cyflogadwyedd sy'n rhannu arweiniad gan y Brifysgol a'r Coleg gyda'u Hysgolion priodol.<br><br>Mae rhaglen o ddigwyddiadau cyflogadwyedd bellach yn cynnig cyfuniad parhaol o ddigwyddiadau ar y campws ac ar-lein i'r rhai sy'n wynebu rhwystrau o ran cael mynediad at brofiad gwaith trwy ein rhaglen Cefnogi Profiad Gwaith - mae rhai yn gyfleoedd profiad gwaith ymarferol yn ogystal â'r gyfres 'Cwrdd â gweithwyr proffesiynol' lle gall myfyrwyr ddod i gyswllt â phobl sy'n gweithio mewn gyrfaoedd sydd o ddiddordeb iddynt.<br><br>Caiff cynnwys anghydamserol ei gynnig trwy'r Ganolfan Gyflogadwyedd ar Fy Mangor lle caiff myfyrwyr fynediad ar alw at offer gwirio CV a llwyfan i ymarfer gogyfer â chyfweliadau a chanolfannau asesu, a thaflenni gwybodaeth mewn fformat hygyrch yn Sway. Rydym wedi ehangu ein harlwy i gynnwys gweithdai ymarferol mewn labordai cyfrifiadurol gyda'r nod o ganiatáu i fyfyrwyr weithio, gyda chefnogaeth ein hymgynghorwyr, er enghraifft ar CVs neu ffurflenni cais.<br><br>Cynhelir digwyddiadau'n benodol ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol ar bynciau'n ymwneud â rheoli gyrfa, a chynhelir sesiynau cefnogi newydd ar waith rhan amser gyda myfyrwyr-fentoriaid.<br><br>Ffair Yrfaoedd:  Cynhaliwyd y Ffair Yrfaoedd fis Hydref ar ddydd Mercher, a chafodd cyfyngiadau amserlennu eu hystyried wrth gynllunio'r digwyddiad a arweiniodd at ganslo neu aildrefnu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | darlithoedd er mwyn caniatáu i fyfyrwyr fynychu sgyrsiau a chwrdd ag arddangoswyr (ac eithrio rhai cyrsiau lle na fyddai hyn yn bosibl e.e. iechyd). Ystyriwyd anghenion myfyrwyr ar y diwrnod hefyd gan ychwanegu Awr Dawel ar ddechrau'r ffair.<br><br>Mae’r Gefnogaeth Cyflogadwyedd a Dargedwyd i Fyfyrwyr, a ariennir gan HEFCW wedi cael blwyddyn gyntaf lwyddiannus gan ragori ar y targedau ar gyfer 2022/23. Mae’r gefnogaeth wedi helpu’r cyfranogwyr y sonnir yn benodol amdanynt yn y Strategaeth Ehangu Mynediad i symud yn nes at y farchnad lafur trwy gynyddu eu hyder, adnabod rhwystrau a nodi a dysgu ffyrdd o weithio gyda nhw i feithrin hunan-gred, sgiliau cyflogadwyedd a phrofiad gwaith.<br><br>Gall rhwystrau ddeillio o nifer o wahanol ffactorau megis: caledi ariannol, anabledd, gwahaniaeth dysgu, iechyd meddwl a dyletswyddau gofalu. Blaenoriaethir cymorth i’r rhai sydd ag ychydig neu ddim profiad o waith. Newid cadarnhaol o’r meini prawf ariannu blaenorol oedd cael gwared ar y terfyn oedran 25 mlwydd oed sydd wedi bod yn hynod fuddiol, gan ganiatáu i garfan lawer ehangach o gyfranogwyr gael mynediad at gefnogaeth benodol.<br><br>Cefnogi Profiad Gwaith \| Canolfan Gyflogadwyedd \| Prifysgol Bangor |

| Nod Strategol 3:<br>(F*focws ar staff*)<br>**Denu a dal gafael ar yr holl staff mewn gweithle cynhwysol ac amrywiol lle gall pawb ffynnu**. | | | |
|---|---|---|---|
| | Amcan | Cyfrifoldeb | Cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion (gweler yr allwedd) |
| 3.1 | Nodi cyfleoedd a rhwystrau i recriwtio, dyrchafu a rheoli gweithlu amrywiol. | Adnoddau Dynol. | Gweler y wybodaeth a adroddwyd yn yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol (y mae'r ddogfen hon wedi'i hatodi iddo) am feysydd a amlygwyd ar gyfer gweithredu yn y dyfodol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Adnoddau Dynol (Datblygu Staff a Swyddog Cydraddoldeb). | Hysbysir staff newydd o'r angen i gwblhau'r hyfforddiant Rhagfarn Ddiarwybod yn y llythyr sy'n cyd-fynd â'u contract cyflogaeth, cânt wybod am hyn hefyd yn ystod y Diwrnod Cynefino.<br><br>Atgoffir yr holl staff yn rheolaidd trwy'r Bwletin Staff.<br><br>Cynhaliwyd 5 sesiwn cydraddoldeb yn y cnawd ar gyfer y Tîm Cyfleusterau ym mis Mehefin 2021, gan gynnwys sesiynau yn gynnar yn y bore i staff ar shifftiau ac oherwydd nad oes gan y staff hyn fynediad rheolaidd i systemau TG bob amser.<br><br>Yn 2023, cyflwynodd y brifysgol 'gynllun gwarant cyfweliad' ar gyfer ymgeiswyr anabl er mwyn galluogi Prifysgol Bangor i symud o lefel 1 i lefel 2 yn y cynllun Hyderus o ran Anabledd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.2 | Gwella cynhwysiant trwy reoli pobl yn well ar draws y brifysgol. | Adnoddau Dynol. | Mae 'Canllawiau Hanfodol i Reolwyr' wedi eu datblygu a'u cyflwyno. Pan nodir bod gan aelod newydd o staff gyfrifoldebau staffio, anfonir y canllawiau newydd hyn atynt yn ystod eu hwythnosau cyntaf yn y swydd. Mae'r canllawiau'n ymdrin ag ystod eang o bynciau a fyddai'n berthnasol i'r rhai sydd â chyfrifoldebau rheoli, gan gynnwys adran ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.<br><br>Cyn ei roi ar waith, cafodd y canllawiau eu treialu hefyd, a cheisiwyd adborth gan y rhai a oedd wedi ymuno â'r Brifysgol yn ddiweddar iawn. |
| | | Adnoddau Dynol (Datblygu Staff, Rheolwr Concordat Ymchwil a Swyddog Cydraddoldeb). | Cyflwynwyd rhaglen 'Rheolwyr Bangor', gyda'r garfan gyntaf yn dechrau yn 2021, ac wedi cwblhau pob elfen o'r rhaglen yn 2022. Dechreuodd ail garfan o Reolwyr yn hydref 2022 ac maent bellach yn symud ymlaen drwy'r rhaglen.<br>Mae elfennau niferus ac amrywiol i'r rhaglen, ac un ohonynt yw 'Cydraddoldeb ac amrywiaeth i reolwyr'. |
| 3.3 | Gweithio i annog a sicrhau mwy o amrywiaeth ym meysydd llywodraethu, rheoli ac arwain. | Rheolwr Athena SWAN. Swyddog Cydraddoldeb Adnoddau Dynol. | Caiff gwybodaeth ei dadansoddi a'i hadrodd yn flynyddol. Cynhaliwyd Gweithdy Amrywiaeth Bwrdd i'r Cyngor ar 28/03/2022 ac arweiniodd at Gynllun Gweithredu i'r Cyngor.<br><br>Mae camau gweithredu pellach wedi'u nodi fel rhan o Gynllun Gweithredu Gwobr Arian Athena Swan Prifysgol Bangor mewn perthynas â chynyddu amrywiaeth o ran rhywedd ar y lefel uchaf, gan gynnwys archwilio gweithredu cadarnhaol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae gwaith bellach wedi dechrau hefyd fel rhan o hunanasesiad Siarter Cydraddoldeb Hil Prifysgol Bangor i edrych ar gamau gweithredu Prifysgol Bangor i gynyddu amrywiaeth mewn perthynas â hil/ethnigrwydd mewn arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethu ym Mangor. |
| | | Grŵp Athena SWAN.<br>Y Bwrdd Gweithredol.<br>Adnoddau Dynol (Datblygu Staff).<br>Pob aelod o staff uwch. | Mae dangosyddion perfformiad allweddol bellach yn cael sylw trwy Gynllun Gweithredu'r Adroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau. |
| 3.4 | Parhau i wneud cynnydd â'r cynllun gweithredu i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac ehangu ein dadansoddiad i ystyried nodweddion gwarchodedig eraill. | Adnoddau Dynol. | **Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau**<br><br>Dyddiad cipolwg 31 Mawrth 2023:<br>• Canolrif 5.6%<br>• Cymedr 10.9%<br><br>Dyddiad cipolwg 31 Mawrth 2022:<br>• Canolrif 5.8%<br>• Cymedr 13.2%<br><br>Dyddiad cipolwg 31 Mawrth 2021:<br>• Canolrif 5.7%<br>• Cymedr 13.7%<br><br>Dyddiad cipolwg 31 Mawrth 2020:<br>• Canolrif 7.2%<br>• Cymedr 13.9% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Adnoddau Dynol. | **Y Bwlch Cyflog Ethnigrwydd** ar lefel sefydliadol<br><br>**31 Mawrth 2023:**<br>• Canolrif 4.3%<br>• Cymedr -2.6%<br><br>**31 Mawrth 2022:**<br>• Canolrif -8.4%<br>• Cymedr -4.9%<br><br>**31 Mawrth 2021:**<br>• Canolrif -1.7%<br>• Cymedr -12.1%<br><br>**31 Mawrth 2020:**<br>• Canolrif -34.2%<br>• Cymedr -10.6%<br><br>* Mae rhif negyddol yn dangos bod staff o gefndir ethnig leiafrifol yn cael mwy o dâl na staff gwyn * |
| | | Adnoddau Dynol. | **Y Bwlch Cyflog Anabledd** ar lefel sefydliadol<br><br>**31 Mawrth 2023:**<br>• Canolrif 15.9%<br>• Cymedr 13.5%<br><br>**31 Mawrth 2022:**<br>• Canolrif 15%<br>• Cymedr 11.1%<br><br>**31 Mawrth 2021:**<br>• Canolrif 16.8%<br>• Cymedr 12.9%<br><br>Nid oes ffigurau ar gyfer y flwyddyn flaenorol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.5 | Parhau i wneud cynnydd gyda chynllun gweithredu Athena SWAN. | Rheolwr Athena SWAN a Grŵp Athena SWAN. Penaethiaid Ysgolion. Pwyllgorau Cydraddoldeb y Colegau. Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol | Bellach mae gan chwe Ysgol wobrau Efydd (Ysgol Gwyddorau Eigion, Busnes, Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig, Ysgol Gwyddorau Naturiol, Gwyddorau Meddygol ac Iechyd, Gwyddorau Dynol ac Ymddygiadol).<br><br>Mae Siarter Athena Swan wedi cael ei thrawsnewid yn sylweddol yn dilyn adolygiad annibynnol. Cyhoeddwyd y meini prawf a'r prosesau newydd ym mis Mehefin 2021.<br><br>Nid oedd cyflwyniadau pellach ers 2020 oherwydd bod y siarter yn cael ei diwygio. Mae'r tair ysgol arall bellach yn gweithio tuag at gyflwyno yn 2023/24.<br><br>Cyflwynwyd cais PB am wobr Arian ym mis Tachwedd 2023 ac roedd yn llwyddiannus. |
| 3.6 | Gwella gweledeDD Prifysgol Bangor fel gweithle cynhwysol a chefnogol a chodi ymwybyddiaeth am y gefnogaeth sydd ar gael. | Marchnata, Cyfathrebu a Recriwtio | Mae gan ein tudalennau gwe y datganiadau hygyrchedd gofynnol ac mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod yr holl adnoddau yn gynhwysol ac yn hygyrch.<br><br>Yn 2022, fe wnaethom greu datganiad hygyrchedd ar gyfer ein gwefan mewn cydweithrediad ag All Able Cyf:<br><br>https://www.bangor.ac.uk/accessibility-statement<br><br>Yn 2023, cyflwynodd y brifysgol 'gynllun gwarant cyfweliad' ar gyfer ymgeiswyr anabl er mwyn galluogi Prifysgol Bangor i symud o lefel 1 i lefel 2 yn y cynllun Hyderus o ran Anabledd. |
| | | Adnoddau Dynol. Swyddog Cydraddoldeb Myfyrwyr. Pob rheolwr. | Mae codi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a sut y gall rheolwyr gefnogi eu staff wedi'i gynnwys yn y Gweithdy Cydraddoldeb i Reolwyr.<br><br>Adnoddau Dynol yn ystyried datblygu Polisi Cam-drin Domestig yn unol â chanllawiau diweddaraf y llywodraeth ac arferion gorau'r maes addysg uwch<br><br>Ar gyfer myfyrwyr, rydym wedi parhau i ddarparu a datblygu ein Gwasanaeth Cymorth Trais Rhywiol ac Aflonyddu gan gynnwys datblygu ein Tîm Ymateb i Ddatgeliadau.<br><br>I baratoi ar gyfer y Brifysgol yn cynnig cyngor i staff yr effeithir arnynt gan unrhyw un o'r uchod, rhoddodd y Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr hyfforddiant i ddetholiad o Hyrwyddwyr Cydraddoldeb mewn Ymateb i Ddatgeliadau o Drais Rhywiol a Thrais Domestig a chyflwynodd gwrs hyfforddi diwrnod llawn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.7 | Hyrwyddo a hybu cefnogaeth gyson i weithwyr/ymarfer teulu-gyfeillgar a darparu ar gyfer gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yn unol ag arweinwyr y sector. | Adnoddau Dynol.<br>Penaethiaid Ysgolion.<br>Cyfarwyddwyr. | Parhaus fel canlyniad i Arolwg Staff 2022.<br><br>Bellach gellir ymuno â llawer o gyfarfodydd adrannol a phrifysgol o bell, sy'n golygu bod staff â gofynion hygyrchedd a chyfrifoldebau gofalu yn fwy tebygol o allu mynychu.<br><br>Mae pob swydd a hysbysebir yn y brifysgol bellach yn ddiofyn yn datgan y rhoddir ystyriaeth i Rannu Swydd / Gweithio’n Rhan Amser oni bai y gall y Rheolwr Recriwtio gyflwyno cyfiawnhad gwrthrychol dros gael dim ond 1 unigolyn llawn amser yn cyflawni’r swydd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Adnoddau Dynol. | Cyhoeddir yr holl Bolisïau ar ein gwe-dudalennau ac mae gan staff swyddog Adnoddau Dynol penodedig.<br><br>Cynigir hyfforddiant rheolaidd ar bolisïau cefnogaeth i weithwyr drwy gydol y flwyddyn academaidd a chaiff ei hysbysebu ar dudalen we Datblygu Staff Adnoddau Dynol.<br><br>Ni fu unrhyw gynnydd yn y nifer sy’n manteisio ar absenoldeb rhiant a rennir yn ystod y cyfnod adrodd. |
| 3.8 | Creu cymuned prifysgol sy'n cefnogi iechyd meddwl a lles cadarnhaol trwy gynorthwyo staff i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion iechyd meddwl. | Dirprwy Is-ganghellor Lles.<br>Grŵp Iechyd a Lles.<br>Adnoddau Dynol.<br>Gwasanaethau Myfyrwyr. | Yn ystod 2022/23 datblygwyd a darparwyd amrywiaeth o fentrau sy’n canolbwyntio ar staff, dan arweiniad y Grŵp Iechyd a Lles:<br><br>• Ychwanegwyd cwestiwn am les at yr Adolygiad Datblygu Perfformiad, gan gynnwys sut y gall staff gynllunio i ofalu am eu lles yn y flwyddyn i ddod,<br><br>• Cynnig Prynhawn Llesiant ar draws mis Mawrth i’r holl staff fuddsoddi yn eu llesiant,<br><br>• Gwirio pwysedd gwaed am ddim ar y campws i bob aelod o staff fel rhan o wythnos Gwybod Eich Rhifau,<br><br>• Cyflwyno darpariaeth hyfforddiant lles am ddim sydd ar gael i’r holl staff trwy hyfforddwyr lles cymwysedig,<br><br>• Mae dros 100 o reolwyr llinell wedi cael derbyn hyfforddiant iechyd meddwl i-act,<br><br>• Ariannwyd y gwaith o gyflwyno hyfforddiant i wyliedyddion (Darpariaeth Gwasanaethau Myfyrwyr), |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Ymunodd Prifysgol Bangor â'r 'Addewid Amser i Siarad'. |
| 3.9 | Hyrwyddo cymuned gynhwysol, groesawgar i aelodau staff rhyngwladol. | Adnoddau Dynol. | Mae Adnoddau Dynol yn parhau i ddarparu canllawiau arbenigol wedi'u teilwra i staff nad ydynt yn dod o'r Deyrnas Unedig, ac maent yn bwriadu adolygu a chynnwys cefnogaeth ar-lein newydd i staff rhyngwladol newydd ar dudalennau gwe staff yn 2023. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Adnoddau Dynol. | Yn 2017/18 roedd staff yr Undeb Ewropeaidd yn cyfrif am 6.9% o'r holl staff.<br>Yn 2018/19: 7.3%<br>Yn 2019/20: 7%<br>Yn 2020/21: 6.8%<br>Yn 2021/22: 6.7%<br>Yn 2022/23: % |
| 3.10 | Ystyried camau i ddarparu ar gyfer gweithlu sy'n heneiddio a phrinder llafur posib. | Adnoddau Dynol. Undebau Llafur. | Rhai camau gweithredu a nodwyd i gefnogi e.e. Gweithio Deinamig ond nid yw wedi'i ystyried yn gyfannol eto. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.11 | Archwilio'r rhesymau am gyfraddau datgelu isel mewn perthynas â rhai nodweddion gwarchodedig h.y. cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd a chred (a diffyg cred). Ceisio gwella cyfraddau datgelu nodweddion gwarchodedig gan staff a chynyddu ymwybyddiaeth a gweledEDD y grwpiau gwarchodedig hyn. | Adnoddau Dynol. Rhwydwaith LHDT. Grŵp Ffydd. Hyrwyddwyr Cydraddoldeb. | Mae'r gwaith hwn bellach yn cyd-fynd â'r gwaith o gyflwyno iTrent, system newydd Adnoddau Dynol i staff, yn 2023. |
| | | Rhwydwaith LHDTC. Adnoddau Dynol. Gwasanaethau Myfyrwyr. Pontio | Mae gennym bellach dudalen we a chyfrif e-bost LHDTC+ pwrpasol lle gellir gofyn am gyngor a chymorth cyfrinachol.<br><br>Mae camau gweithredu i gynyddu ymwybyddiaeth ac amlygrwydd yn cynnwys:<br><br>• Prifysgol Bangor yn noddi ac yn cymryd rhan yn Balchder Gogledd Cymru bob blwyddyn.<br>• Baner enfys yn cwhwfan uwch Prif Adeilad y Celfyddydau a Pontio bob blwyddyn yn ystod y mis balchder<br>• Rhwydwaith cymdeithasol i gynyddu amlygrwydd a chefnogaeth ymhlith staff a myfyrwyr LHDTC+.<br>• Sesiwn groeso LHDTC+ i fyfyrwyr newydd ynghyd ag UNDEB.<br>• Siaradwyr gwadd/gŵyl ffilmiau yn Pontio ar gyfer Mis Hanes LHDTC+ |
| | | Arweinydd y Project Iechyd a Llesiant. Adnoddau Dynol. | Cynhaliwyd Diwrnod Datblygu Iechyd a Llesiant yn 2022 gan gytuno ar gam gweithredu i ymchwilio i ddulliau ymarfer gorau wrth sefydlu rhwydweithiau staff. Mae hyn bellach yn cael ei wneud gan ein Arweinydd Project Iechyd a Llesiant i sicrhau bod ein dull gweithredu yng nghyswllt rhwydweithiau staff yn cyd-fynd â'n nodau o amgylch Iechyd a Llesiant ac ymdeimlad staff o berthyn ym Mhrifysgol Bangor. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau a symudir ymlaen â chamau gweithredu yn 2024. |

Nod Strategol 4:
*(Cenhadaeth ddinesig a ch*ymunedol)
**Cydweithio ac ymwneud â grwpiau nad ydynt yn draddodiadol wedi ymwneud â'r brifysgol.**

Ers datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig hwn, mae Strategaeth Cenhadaeth Ddinesig newydd Prifysgol Bangor wedi cael ei lansio ym mis Hydref 2022. Mae'r holl gamau gweithredu y gellir eu mesur o amgylch Nod Strategol 4 yn awr yn dod o dan y Strategaeth Cenhadaeth Ddinesig newydd.

Strategaeth Cenhadaeth Ddinesig Prifysgol Bangor